COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored - 1.00 p.m., Dydd Gwener 5 Gorffennaf 2024
Cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd mewn sawl lleoliad, trwy gyfrwng meddalwedd Zoom

Materion Agored y Cyngor - cofnodion 1-14.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (yn Cadeirio), Stephen Nicholls, Victory Ezeofor, Tim Palazon, Jan Tiley, Chris Franks, Salamatu Fada, Siôn Aled Owen, Cathy Clark; Jenni Jones-Annetts a Dona Lewis (hyd at gofnod 9 yn unig).
Hefyd yn bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Clerc); Iola Llwyd (cyfieithydd - gwasanaeth cyfieithu ar y pryd); Clare Jones (tiwtor, cofnodion 1 a 2 yn unig).
Ymddiheuriadau: Sam Emmett, Judith Evans, Nicole Kinnaird, Lisa O'Connor.
Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd ar y cychwyn.

2. Cyflwyniad gan Clare Jones, Enillydd Gwobr Tiwtor Inspire! 2024

Fe wnaeth Kathryn Robson gyflwyno Clare Jones, yr oedd wedi bod yn dyst i'w gwaith trawiadol gyda dysgwyr SSIE (ESOL) yn Abertawe. A hithau'n gyn athro ysgol gynradd, roedd Clare wedi bod yn gweithio yng Nghanolfan Gymunedol Affricanaidd Abertawe am y 10 mlynedd diwethaf yn gwella ymwybyddiaeth ddiwylliannol trwy amrywiaeth o gyrsiau. Roedd ei gwaith yn ymwneud yn bennaf â dysgu teuluol trwy SSIE ac, i raddau helaeth, roedd wedi goresgyn rhwystrau fel trafferthion tocynnau bws a galwadau gofal plant trwy gyllid FCF, gan gynnwys gweithwyr creche oedd yn aml yn bresennol yn y dosbarth, gan greu awyrgylch hamddenol. Heblaw am y dysgu mewn dosbarthiadau, elfennau allweddol oedd llunio cysylltiadau a gwneud ffrindiau gyda mamau eraill, ar yr un pryd â dysgu sgiliau ymarferol (fel sut i ysgrifennu i'r ysgol am absenoldeb plentyn, neu pa ddigwyddiadau a oedd yn cael eu cynnal i gymunedau penodol yn Abertawe). Gemau creadigol a chwarae oedd rhai o'r profiadau addysgol a ddefnyddiwyd, gan helpu gydag integreiddio a chyfathrebu; yn yr un modd hefyd defnyddio rhywfaint o Gymraeg wrth i'w plant ei dysgu yn yr ysgol. Roedd opsiynau dilyniant ar agor i'w myfyrwyr naill ai trwy AOC neu Goleg Gŵyr Abertawe. Diolchwyd i Clare am ei chyfraniad a rhoddwyd dolen i fideo ei Gwobr Inspire! i aelodau'r Cyngor.

3. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 11 Mawrth 2024

Cafodd cofnodion Busnes Agored cyfarfod rhithiol blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

Oherwydd mai dyma gyfarfod olaf Jenni Jones-Annetts fel aelod o'r Cyngor, diolchwyd yn wresog iddi am ei chyfraniadau at y Sefydliad a'i llongyfarch am fod mor uchel ei pharch, yn sgil eu cyfraniadau yn AOC a'i ragflaenydd, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr, Gorffennaf 2024

Tynnwyd sylw at baragraff 3.2 a'r ymyriadau a wnaed ym Mhort Talbot o ganlyniad i ostyngiad tebygol Tata Steel yn ei weithrediadau. Roedd AOC wedi gweithio gydag eraill i gysylltu â phobl dan fygythiad diswyddo i hyfforddi am gerdyn CSCS trwy bartneriaid trydydd parti a oedd yn cynnig sgiliau adeiladu. Hyd yn oed gyda'r £64,000 a ryddhawyd at y diben hwn fis diwethaf gan Lywodraeth Cymru, roedd cyllid annigonol o hyd i fodloni anghenion tebygol. Er nad oedd AOC yn adrodd yn uniongyrchol i ymchwiliad Pwyllgor Materion Cymreig San Steffan i rôl mudo rhyngwladol ar weithlu Cymru a'r newid ym mhoblogaeth Cymru, gellid gwneud sylwadau arno, os oedd angen. A chadarnhawyd y byddai sesiwn ar y cyd ym Mhabell y Cymdeithasau ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst a fyddai'n cwmpasu gwaith Cwmni Bro a mentrau cymdeithasol a chymunedol.

O ran cyllid, cyfeiriodd Mark Baines at ystadegau o'r wythnos flaenorol a ddangosodd fod AOC yn darparu gwerth gwell am arian ar gyfer astudio'n rhan amser na Choleg AB penodol, efallai oherwydd bod gorbenion ac argostau'r coleg yn fwy o lawer na ninnau. Y prif bwyntiau am gyllid oedd y byddai gwarged cadarnhaol ar gyfer 2023-24, gan gynnwys posibilrwydd efallai na fyddai angen cyllid o'n cronfeydd wrth gefn tuag at ddarpariaeth addysgol ychwanegol gan fod disgwyl cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru; er y byddai 2024-25 yn heriol gan na fyddai elfen y Costau Byw, sef o leiaf 3.5% ar gyflog yn cael ei dalu gan Lywodraeth Cymru y tro hwn. Mynegodd John Graystone wrthdaro buddiannau, gan ei fod yn aelod o Gorff Adolygu Cyflogau Athrawon Cymru; roedd yn ymwybodol bod cyflogau athrawon heb eu llunio'n derfynol eto ac y gallent fod uwchlaw 3.5%. Nid oedd hi'n glir ychwaith p'un a allai'r newid dros nos yn Llywodraeth y DU olygu gostyngiadau mewn cefnogaeth barhaus i raglen *Multiply*.

Siaradodd Cath Hicks am sefyllfa gofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), a drafodwyd yn ddiweddar yn y Pwyllgor Adnoddau. Roedd gan 75% o diwtoriaid AOC gymhwyster addysgu Lefel 5 a oedd yn bodloni gofynion y trothwy addysg bellach newydd. Yng nghyfarfod cynrychiolwyr AOC, CGA, ColegauCymru a Llywodraeth Cymru y diwrnod cynt, er bod cymwysterau lefel 3 yn dderbyniol i ymarferwyr dysgu oedolion yn y gymuned - sef yr hyn yr oedd AOC yn ymgymryd ag ef - roedd disgwyl safonau Lefel 5 gan ein tiwtoriaid o hyd. Dywedodd Hayden Llewellyn (pennaeth CGA) mai dyma'r tro cyntaf yr oedd wedi clywed am y broblem arbennig hon. Roedd prinderau sgiliau cydnabyddedig yn y maes addysgegol penodol hwn a chodwyd rhywfaint o sôn am gyfatebiaeth bosibl â chymwysterau tramor yn y cyfarfod.

5. Cofrestr Risgiau Mehefin 2024

Dymunodd Mark Baines dynnu sylw'r Cyngor at risg 4.1.2 a'r ymdrechion ychwanegol sylweddol a oedd yn cael eu gwneud o ran trefniadau diogelu seiber-ddiogelwch yn y Sefydliad. Yn ei dro, gofynnodd y Cyngor i'r Pwyllgor Archwilio ystyried p'un a oedd y sefyllfa a drafodwyd yng Nghofnod 4 uchod, ynghylch cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg, yn gofyn am gynnwys risg ychwanegol ynghylch hyn.

6. Cofnodion y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2024

Amlygodd Steve Nicholls y prif bwyntiau o'r cyfarfod, gan gynnwys y ffaith y gellir defnyddio Cronfa Tudor Bowen Jones o'r diwedd yn gysylltiedig â chatalogio/digideiddio ein harchifau yn y Llyfrgell Genedlaethol. Roedd natur cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau, heb gworwm, yn golygu bod ei holl argymhellion wedi dod i'r Cyngor eu cymeradwyo ar yr achlysur hwn. Felly, cymeradwywyd yr argymhelliad i adleoli Hyb Dysgu Port Talbot; roedd adleoli staff yn hytrach na'u diswyddo yn bosibilrwydd o hyd. Ystyriodd y Cyngor tybed a allai cronfa WULF TUC Cymru helpu gyda'r symud hwnnw mewn rhyw ffordd. Cafodd parhad y sefyllfa o ran lefelau ffioedd dysgu ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac eglurder y datganiad sefyllfa ar Ddeallusrwydd Artiffisial, eu nodi a'u cymeradwyo. O ystyried bod trafodaethau'n mynd rhagddynt o hyd gyda

Llywodraeth Cymru ac Estyn ynghylch defnyddio staff AOC mewn arolygiadau niferus, nid oedd angen paratoi llythyr gan y Cyngor/Cadeirydd ar y mater ar hyn o bryd. Ac o ran y cynnig i leihau nifer cyfarfodydd y Pwyllgor Adnoddau o 4 i 3 yn flynyddol, roedd y Cyngor o'r farn y dylid cadw cyfarfod Hydref yn yr amserlen ac ystyried p'un a fyddai'n digwydd ai peidio yn uniongyrchol cyn y cyfarfod, yn dibynnu ar nifer y materion pwysig y byddai angen ymdrin â nhw (os o gwbl).

7. Datganiadau Ariannol – Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst 2023 i 31 Mai 2024

Rhoddodd Mark Baines sylwadau ar ragolwg diwedd blwyddyn iach a mantolen gref. Esboniodd fod balans Banc Barclays, a nodwyd gyda sero, yn cael ei gadw yn nadansoddiadau'r Fantolen gan ei fod yn fanc cymeradwy ar gyfer AOC, y trosglwyddwyd yr holl arian ohono fel mesur trysorfa pwrpasol.

8. Cyllidebau sefydliadol arfaethedig ar gyfer 2024-25

Disgwyliwyd i'r gyllideb weithredol llai unrhyw gyfraniadau prosiect ddychwelyd diffyg o £188,000. Fodd bynnag, yn sgil cynnwys cyfraniadau prosiect disgwyliedig, rhagwelwyd gwarged o £350,000. Codwyd cwestiwn gan Victory Ezeofor ynghylch pam y byddai gwariant tâl yn gysylltiedig ag eiddo'r Sefydliad yn disgyn i sero yn 2024-25. Esboniwyd fod hyn yn gysylltiedig ag ymddeoliadau diweddar ymhlith staff a throsglwyddo dyletswyddau o'r fath i gyrff allanol, gyda chostau canlyniadol yn cael eu hadlewyrchu mewn mannau eraill yn y cyllidebau. Roedd y Pwyllgor Adnoddau wedi argymell cymeradwyo'r cyllidebau yn ei gyfarfod bythefnos ynghynt, ac roedd y Cyngor yn fodlon eu cymeradwyo fel yr oeddent, gan gynnwys cario hyd at £250,00 wedi'i glustnodi o gronfeydd wrth gefn y Sefydliad ymlaen i'w defnyddio yng ngwaith craidd y cwricwlwm, os byddai angen y gwariant ychwanegol hwnnw.

9. Cynigion cynllun aelodaeth Addysg Oedolion Cymru

Bwriadwyd ail-lansio'r cynllun aelodaeth ym mis Medi, yn sgil cyfnod paratoi hir a oedd wedi caniatáu am ddatblygu proses weithredol, gan gynnwys system atgoffa awtomataidd ar gyfer talu, wedi'i ddatblygu gan y Tîm Digidol. Roedd gwaith i'w gwblhau o hyd ar faterion 'cymhellion' â disgownt a'r union drefn ar gyfer aelodau sefydliadau cyswllt, ond gofynnwyd am adborth ar yr hyn a oedd wedi'i gyflawni hyd yn hyn a beth oedd yn cael ei gynnig wrth ehangu'r cynllun, a fyddai'n cael ei gyflwyno fesul cam, gan ddechrau ym mis Medi.

Awgrymodd rhai aelodau'r Cyngor y byddai taflen ar aelodaeth i'w dosbarthu gan diwtoriaid i'r holl ddysgwyr yn ddechrau da. Nid oedd hi'n glir i ba elusennau/sefydliadau y gallai'r arian aelodaeth fynd iddynt, yn enwedig gan yr ystyriwyd y byddai'r swm hwn yn gyfyngedig, ond y gallai'r elfen honno esblygu gydag amser. A fyddai cadwyni siopau coffi ymhlith y mannau lle y gellid cael gostyngiadau? Ac awgrymwyd bod hwdis brand, â gostyngiad i aelodau, yn gynnig buddiol i (ail)gyflwyno inni. Roedd y rheiny'n sylwadau a wnaed yn gysylltiedig â'r saith pwynt a amlinellir yn adran 5, gan fod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo lansio'r cynllun, gan adael rhai penderfyniadau gweithrediadol yn nwylo rheolwyr ac ail gam adolygu i ddod.

10. Camau cynllunio olyniaeth o ran llywodraethu Addysg Oedolion Cymru

Heblaw am ymadawiad Jenni Jones-Annetts, fel yng nghofnod 3 uchod, roedd tri aelod hirsefydlog arall o'r Cyngor yn rhoi'r gorau iddi ddiwedd Mawrth 2025 - John Graystone (Cadeirydd), Chris Franks (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio) a Cathy Clark (dysgwr-lywodraethwr). Yn ddelfrydol, byddai angen i Gadeirydd newydd y Cyngor fod yn ei le cyn dyddiad gadael y Cadeirydd presennol: byddid yn ceisio

enwebiadau ar gyfer y rôl honno drwy e-bost, gyda'r nod o gynnal etholiad ffurfiol iddi yng nghyfarfod mis Medi'r Cyngor. Cyhoeddodd Salamatu Fada, yn rhinwedd ei rôl fel un o'r Is-gadeiryddion, ei bod yn bwriadu enwebu'r Is-gadeirydd arall, Stephen Nicholls, i rôl y Cadeirydd ac y byddai'n gwneud hynny'n swyddogol ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Mewn newyddion cysylltiedig, roedd Stephen Thomas wedi rhoi gwybod i gydweithwyr ei fod yn bwriadu rhoi'r gorau i rôl Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc ar ddiwedd blwyddyn galendr 2024. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch sut i fynd ati i lenwi'r swydd honno (0.6 cyfwerth ag amser llawn ar hyn o bryd) a ph'un a ellid hysbysebu unrhyw ddyletswyddau ychwanegol yn y broses recriwtio a fyddai'n llenwi anghenion eraill y sefydliad fel rhan o swydd amser llawn. Mynegwyd gwahaniaeth barn o ran mater blaenoriaethu sgiliau clerc dros ruglder dwyieithog yn y meini prawf dewis: cytunwyd na ddylid nodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, ond eu bod yn cael pwysoliad ychwanegol wrth lunio rhestr fer.

11. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024

Cymeradwyodd y Cyngor y newidiadau arfaethedig i gylch gwaith a chylch gorchwyl y Pwyllgor (cofnod 5a y pwyllgor), gan gynnwys hynny a oedd yn caniatáu i lywodraethwyr y dysgwyr fod yn aelodau o'r Pwyllgor mewn egwyddor. Cadarnhaodd Chris Franks, ei Gadeirydd, y byddai'r Pwyllgor Archwilio'n ymgynnull nesaf ymhen 10 diwrnod.

12. Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwr a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024

Soniodd Salamatu Fada, Cadeirydd y Pwyllgor, am niferoedd darparu cadarn y cwricwlwm (wedi'u diweddaru yn adroddiad y Prif Weithredwr, cofnod 4 uchod) ynghyd â'r polisi newydd ar Addasrwydd i Astudio a'r Polisi Derbyn diwygiedig a gymeradwywyd gan y Pwyllgor o dan ei gofnod 8. Un diweddariad cadarnhaol oedd bod rôl CDC Sir Gâr wedi'i llenwi ers hynny.

13. Cofnodion y Gynhadledd Flynyddol a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ym Merthyr Tudful ar 9 Ebrill 2024

Roedd gan yr aelodau Cyngor hynny a wnaeth sylwadau farn ffafriol am y digwyddiad - natur gadarnhaol cyfarfod wyneb yn wyneb, pa mor addysgiadol oedd clywed a chyfarfod ag enillwyr y gwobrau, ac addasrwydd Theatr Soar fel lleoliad.

14. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd cysylltiedig yn ystod 2024-25

Yn sgil trafodaeth yn y cyfarfod a rhywfaint o ymgynghori dilynol ymhlith swyddogion, cytunwyd ar galendr y cyfarfodydd dros y flwyddyn academaidd ac ariannol i ddod fel a ganlyn:

Cyngor #1 - **Dydd Iau 26 Medi 2024 (11:00 - 14:00)**
Cyngor #2 - **Dydd Mawrth 26 Tachwedd 2024 (11:00 - 14:00)**
Cyngor #3 - **Dydd Iau 30 Ionawr 2025 (11:00 - 14:00 - i'w gadarnhau)**
Cyngor #4 - **Dydd Llun 10 Mawrth 2025 (yn ofynnol i lunio materion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol/Cynigion yn derfynol: 11:00 - 14:00)**
Cynhadledd Flynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol - **Dydd Iau 3 Ebrill 2025: cynnig – Y Cae Ras, Wrecsam**
Digwyddiad Cynllunio Strategol Preswyl - **Dydd Llun 12 a dydd Mawrth 13 Mai 2025: cynnig - Y Canolbarth**
Cyngor #5 – **Dydd Mercher 2 Gorffennaf 2025 (11:00 - 14:00)**

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Cam gweithredu y cytunwyd arno	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd y dylid gweithredu
Cofnod 5	Y gofrestr Risg ar gyfer Mehefin 2024	Y Pwyllgor Archwilio i ystyried a ddylid ychwanegu risg i gwmpasu mater cymwysterau Cyngor y Gweithlu Addysg.	MB / ST	Gorffennaf 2024
Cofnod 6	Cofnodion y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2024	Byddai cyfarfod Hydref y Pwyllgor Adnoddau yn cael ei gadw yn yr amserlen, pe ystyrid bod angen ei gynnal yn nes at y dyddiad.	MB / ST	Awst 2024
Cofnod 9	Cynigion cynllun aelodaeth Addysg Oedolion Cymru	Cynllun aelodaeth i ddechrau yn ôl y bwriad ac adolygiad pellach gan y Cyngor i ddod, maes o law.	CH	Tachwedd 2024
Cofnod 10	Gweithredoedd cynllunio olyniaeth o ran llywodraethu Addysg Oedolion Cymru	Cynnal proses enwebu ar gyfer Cadeirydd newydd cyn cyfarfod nesaf y Cyngor. Byddai proses recriwtio i swydd y Clerc yn dechrau cyn hynny hefyd.	ST KR / CH	Medi 2024 Awst 2024